

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

The Langley Spa, Cyffordd Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 23 Ebrill 2026

Dyddiad cyhoeddi: 24 Gorffennaf 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-025-8

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd Profiad y Claf	8
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	10
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
4.	Y camau nesaf.....	15
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	16
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	17
	Atodiad C – Cynllun gwella	18



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Langley Spa ar 23 Ebrill 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Ni chwblhawyd unrhyw holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi bod clinig laser The Langley Spa yn darparu amgylchedd dymunol i gleifion, a bod y safle yn ymddangos yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da.

Roedd gwybodaeth briodol yn cael ei darparu cyn, yn ystod ac ar ôl triniaethau ac roedd cleifion yn cael eu gwahodd i roi adborth.

Cawsom sicrwydd bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân a dymunol
- Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei rhannu â'r cleifion
- Roedd y gwasanaeth yn gofyn am adborth ac yn ei adolygu.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y clinig laser yn cynnal safon dda o ddiogelwch a'i fod yn darparu gofal mewn modd effeithiol. Roedd yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da.

Roedd yr uned laser mewn cyflwr da, ac roedd mesurau diogelwch priodol ar waith a chofnodion gwasanaethu yn cael eu cadw. Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau ac roedd gan y clinig reolau lleol a phrotocolau trin cynhwysfawr ar waith. Roedd y gweithredwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y rheolau lleol yn cynnwys yr holl fesurau rheoli gofynnol
- Cynnal ymarferion tân a'u cofnodi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cyfarpar laser yn cael ei gynnal a'i gadw a'i ddefnyddio'n ddiogel
- Roedd gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddarparu gofal priodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd perchennog y clinig ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion. Gwelsom agwedd gadarnhaol tuag at adborth a gwneud gwelliannau.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd ddiogel.

Roedd gan y gweithredwyr dystiolaeth i ddangos eu bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf a phriodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi gweithdrefnau ar waith i gadw a gwaredu cofnodion cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau clir ac effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Urddas a pharch

Roedd yn bosibl cloi drws yr ystafell drin ac roedd cloriau ar y ffenestr allanol er mwyn hyrwyddo preifatrwydd y cleifion. Roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn y clinig i hyrwyddo preifatrwydd y cleifion ymhellach.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod drws yr ystafell drin yn cael ei gloi yn ystod triniaethau. Pe byddai angen i gleifion newid, byddai'r gweithredwr yn camu allan o'r ystafell am gyfnod byr er mwyn cynnig preifatrwydd i'r claf.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl yn ystod ymgynghoriadau, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau a risgiau posibl, costau triniaethau a chyfarwyddiadau gofal.

Roedd polisi ar waith ar gydsynio i driniaeth ac roedd ffurflen fanwl wedi'i hargraffu ymlaen llaw yn cael ei defnyddio yn ystod ymgynghoriadau. Roedd yn ofynnol i'r cleifion lofnodi'r ffurflen ymgynghori i gadarnhau eu bod yn cydsynio i driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw gwybodaeth i gleifion cyfredol yn y clinig a oedd ar gael i'r cleifion ar gais.

Gallai'r cleifion gysylltu â'r clinig drwy alw heibio a thros y ffôn, neu gallent gyflwyno ymholiad drwy wefan y clinig.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn cael triniaeth, ac roedd y canlyniadau'n cael eu dogfennu fel rhan o gofnod triniaeth y claf.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau priodol ar gyfer cael hanes meddygol cleientiaid a'r gweithdrefnau ar gyfer eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd cleifion yn cwblhau ffurflen hanes meddygol ac yn ei llofnodi cyn dechrau cael triniaeth, ac roedd gwiriadau pellach yn cael eu cynnal yn ystod pob ymweliad dilynol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith yn y clinig, a oedd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol. Roedd y ddau weithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd y clinig wedi'i leoli ar y llawr gwaelod gyda mynediad gwastad ym mhob rhan ohono, ond nid oedd yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn oherwydd cyfyngiadau yng nghynllun yr adeilad, gan gynnwys grisiau ger y drws ffrynt. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig rai addasiadau a oedd wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd, gan gynnwys gosod canllaw ger y drws ffrynt a'r defnydd o welyau trin y gellir addasu eu uchder.

Dywedodd y staff wrthym fod urddas cleifion trawsryweddol yn cael ei gynnal drwy gofnodi a defnyddio'r enwau a'r rhagenwau a ffeirir.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y clinig yn gofyn i gleifion am adborth mewn ffordd ragweithiol. Roedd neges destun yn cael ei hanfon at gleifion ar ôl pob triniaeth gyda dolen yn eu gwahodd i gyflwyno adborth drwy borth ar-lein. Roedd y rheolwr cofrestredig yn cael ei hysbysu ar ôl i adolygiadau gael eu cyflwyno. Roedd y cleifion hefyd yn gallu cyflwyno adolygiadau ar-lein a oedd ar gael yn gyhoeddus.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac y byddai'n cysylltu â chleifion pe bai ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon. Rhoddwyd enghreifftiau i ni lle roedd mân newidiadau wedi'u gwneud oherwydd adborth gan gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y safle yn amlwg yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael i'r cleifion, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y clinig bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion yn y clinig, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch wedi'i ategu gan asesiad risg.

Dywedwyd wrthym y byddai drws ffrynt y clinig yn cael ei gloi os byddai'r ddau aelod o staff yn yr ystafelloedd trin, ac y byddai hysbysiad yn cael ei arddangos yn cynghori cleifion i ddychwelyd yn nes ymlaen neu i gysylltu â'r clinig dros y ffôn.

Gwelsom dystiolaeth o dystysgrif diogelwch nwy, profion cyfredol ar offer cludadwy (PAT), ac adroddiad ar y gosodiadau trydanol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau diogelwch tân a gwelsom fod mesurau priodol wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd asesiad risg tân trylwyr a chynhwysfawr wedi cael ei gynnal ac roedd camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r gwelliannau a argymhellwyd. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân a gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael, a bod y cofnodion yn dangos eu bod wedi cael eu gwasanaethu'n flynyddol. Roedd arwydd 'dim smygu' yn cael ei arddangos yn glir yn ardal y dderbynfa.

Roedd arwyddion da yn dynodi'r allanfeydd tân ym mlaen ac yng nghefn y clinig, goleuadau mewn argyfwng yn y coridor a larwm mwg wedi'i bweru â'r prif gyflenwad trydan a oedd yn cael ei brofi'n rheolaidd.

Dywedodd y staff wrthym y byddai rhybudd yn cael ei roi ar lafar pe bai tân. Roedd polisi ymarferion tân ar waith, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Cyflwynodd y rheolwr cofrestredig ffurflen briodol ar gyfer cofnodi ymarferion tân ar unwaith ar ôl yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal a'u cofnodi.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hawdd. Roedd y cynnwys yn gyflawn ac yn gyfredol. Roedd y ddau aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob rhan o'r clinig yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da ar y cyfan a oedd yn sicrhau bod modd ei lanhau'n effeithiol.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau cyfredol ar waith ac roedd rhestrau gwirio glanhau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod ardaloedd amrywiol o'r clinig yn cael eu glanhau'n briodol ac yn rheolaidd. Roedd y ddau weithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau.

Roedd trefniadau priodol a diogel ar waith ar gyfer storio a gwaredu gwastraff clinigol, gan gynnwys gwaredu offer miniog.

Diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd. Dywedodd y staff wrthym nad oedd plant yn cael bod yn yr ystafell triniaethau laser.

Roedd polisi diogelu cyfredol ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y polisi a'r gweithdrefnau yn cynnwys manylion cyswllt er mwyn uwchgyfeirio pryderon.

Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad drwy ychwanegu manylion cyswllt priodol. Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a lawrlwythodd y rheolwr cofrestredig yr ap ffôn symudol fel adnodd ychwanegol.

Roedd y ddau weithredwr laser wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel dau, a oedd yn enghraifft o arfer da.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd yr uned laser mewn cyflwr da, yn lân yr olwg ac yn cydymffurfio â'r cofrestriad ag AGIC.

Roedd arwyddion priodol ar y drws i'r ystafell drin er mwyn rhybuddio bod uned laser yn cael ei defnyddio. Roedd swits allwedd ar yr uned laser, ac roedd yr allwedd yn cael ei storio'n ddiogel pan nad oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio. At hynny, roedd drws yr ystafell drin yn cael ei gadw dan glo pan nad oedd yr ystafell yn cael ei defnyddio.

Roedd yr uned laser yn cael ei gwasanaethu a'i chynnal a'i chadw'n rheolaidd ac roedd cofnodion priodol ar waith.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a gwelsom fod rheolau lleol a phrotocolau trin ar waith. Roedd y protocolau trin yn gynhwysfawr ac wedi'u llofnodi gan ymarferydd meddygol cymwysedig. Gwnaethom nodi mai dim ond un o'r ddau weithredwr laser oedd wedi llofnodi'r fersiwn ddiweddaraf o'r rheolau lleol.

Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Roedd drych mawr wedi'i osod ar y wal yn yr ystafell triniaethau laser ac roedd wedi'i orchuddio ar adeg yr arolygiad. Dywedodd y staff wrthym fod yr ystafell drin yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau gwahanol, a bod y drych yn ddefnyddiol ar adegau ond ei fod yn cael ei orchuddio â defnydd yn ystod triniaethau laser i leihau'r risg sy'n deillio o arwynebau adlewyrchol.

Nodwyd gennym nad oedd y mesur rheoli hwn wedi'i gynnwys yn y Rheolau Lleol a gwnaethom gynghori y dylid diweddau'r Rheolau Lleol yn ôl yr angen.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddau'r Rheolau Lleol i gynnwys y mesurau rheoli a ddefnyddir i sicrhau y caiff y risg sy'n deillio o arwynebau adlewyrchol ei lleihau.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr ac roedd yn cael ei wirio'n rheolaidd wrth gael ei lanhau am unrhyw ddifrod.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y ddau weithredwr laser wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddefnyddio'r uned laser benodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyffredinol, yn unol â chanllawiau Cymdeithas Laser Meddygol Prydain (BMLA).

Roedd protocolau trin priodol ar waith, ac roedd y rhain yn cynnwys technegau trin, paramedrau ac amrywiadau a ganiateir a chmau gweithredu i'w cymryd pe bai digwyddiad andwyol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei annog a'i adolygu'n rheolaidd, er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig rai gweithgareddau archwilio a gynhelir i fonitro'r gwasanaeth a ddarperir a nodi gwelliannau.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofrestr triniaethau clir a manwl yn cael ei chadw ar gyfer yr uned laser. Roedd hyn yn cynnwys manylion adnabod y claf, y dyddiad a'r math o driniaeth, paramedrau'r driniaeth a manylion y gweithredwr.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei chofnodi ar gopiâu papur. Roedd hyn yn cynnwys manylion adnabod y claf, hanes meddygol, cydsyniad, ffurflenni ymgynghori a hanes triniaethau.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel mewn uned dan glo. Nid oedd unrhyw weithdrefnau clir ar waith ynghylch cadw cofnodion a'u gwaredu yn y pen draw. Gwnaethom gynghori y dylid cadw cofnodion am gyfnod o wyth mlynedd cyn eu gwaredu'n ddiogel.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith i gadw a gwaredu cofnodion cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig oedd perchennog y clinig ac roedd yn un o weithredwyr y peiriant laser. Roedd un aelod arall o staff wedi cwblhau hyfforddiant ac wedi'i awdurdodi i weithredu'r peiriant laser.

Roedd amrywiaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol.

Gwelsom fod system syml ond effeithiol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant ac i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei adnewyddu ar adegau priodol.

Roedd gan y clinig yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant cyflogwr cyfredol.

Nodwyd nad oedd tystysgrif cofrestru AGIC wedi cael ei harddangos. Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad drwy arddangos y dystysgrif yn glir yn ardal y dderbynfa.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith a oedd ar gael i'r cleifion yn ôl yr angen. Roedd y weithdrefn gwyno yn cynnwys proses glir, amserlenni priodol ar gyfer ymateb a manylion cyswllt i uwchgyfeirio pryderon at gyrff allanol.

Roedd manylion unrhyw gwynion yn cael eu cofnodi mewn llyfr a'u trafod ar sail ad hoc i sicrhau bod unrhyw gamau priodol yn cael eu cymryd.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Y rheolwr cofrestredig oedd perchennog y clinig ac roedd yn un o weithredwyr y peiriant laser. Roedd ail aelod o'r staff yn gweithredu'r peiriant laser ac yn hunangyflogedig.

Gwelsom dystiolaeth bod y ddau weithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol a'u bod yn meddu ar dystysgrifau i ddangos bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd polisi diogelu cyfredol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd y polisi hwn yn cynnwys manylion cyswllt er mwyn uwchgyfeirio pryderon. Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru.	Mae sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael yn hawdd yn helpu i reoli pryderon diogelu mewn modd amserol.	Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig.	Ymdriniwyd â'r ddau fater yn ystod yr arolygiad drwy ychwanegu manylion cyswllt priodol at y gweithdrefnau a lawrlwytho ap ffôn symudol Diogelu Cymru.
Gwnaethom nodi mai dim ond un o'r ddau weithredwr laser oedd wedi llofnodi'r fersiwn ddiweddaraf o'r rheolau lleol.	Mae'n rhaid i weithredwyr lofnodi i gytuno i ddefnyddio'r rheolau lleol.	Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd hyn ei ddatrys ar unwaith yn ystod yr arolygiad a llofnododd y gweithredwr y rheolau lleol.
Nodwyd nad oedd tystysgrif cofrestru AGIC wedi cael ei harddangos.	Rhaid arddangos tystysgrif gyfredol i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r triniaethau y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu.	Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig.	Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad drwy arddangos y dystysgrif yn glir yn ardal y dderbynfa.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: The Langley Spa

Dyddiad yr arolygiad: 23 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ddim yn gymwys				
Canfyddiadau:		Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: The Langley Spa

Dyddiad yr arolygiad: 23 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd polisi ymarferion tân ar waith, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal a'u cofnodi.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26	Llunio gweithdrefn i sicrhau y caiff ymarferion tân blynyddol eu dyddio a'u llofnodi	Donna Lane	0-1 mis

2.	Dywedodd y staff wrthym fod drych yn yr ystafell drin wedi'i orchuddio â defnydd yn ystod triniaethau laser i leihau'r risg sy'n deillio o arwynebau adlewyrchol. Nodwyd gennym nad oedd y mesur rheoli hwn wedi'i gynnwys yn y Rheolau Lleol a gwnaethom gynghori y dylid diweddau'r Rheolau Lleol yn ôl yr angen.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r Rheolau Lleol i gynnwys y mesurau rheoli a ddefnyddir i sicrhau yr ymdrinnir â'r risg sy'n deillio o arwynebau adlewyrchol yn ddigonol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26	Cysylltu â'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau i ddiweddaru'r asesiad risg a chynnwys y broses gorchuddio'r drych	Donna Lane	0-1 mis
3.	Nid oedd unrhyw weithdrefnau clir ar waith ynghylch cadw cofnodion a'u gwaredu yn y pen draw.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith i gadw a gwaredu cofnodion cleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 23 ac Atodlen 3	Llunio gweithdrefn ar ba mor hir y cedwir cofnodion	Donna Lane	0-1 mis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Donna Lane

Swydd: Perchennog

Dyddiad: 17 Mai 2026